

# CYTUNDEB CLEIFION I GAEL THERAPI GWRTH- GANSER SYSTEMIG:

(ychwanegwch enw'r protocol)

ENW/STAMP YSBYTY: \_\_\_\_\_

\_\_\_\_\_  
\_\_\_\_\_  
\_\_\_\_\_

## GWEITHIWR IECHYD PROFFESIYNOL CYFRIFOL:

Enw: \_\_\_\_\_

Teitl swydd: \_\_\_\_\_

\_\_\_\_\_

## MANYLION Y CLAF

CYFENW/ENW TEULU Y CLAF: \_\_\_\_\_

\_\_\_\_\_

ENW (AU) CYNTAF Y CLAF: \_\_\_\_\_

\_\_\_\_\_

DYDDIAD GENI: \_\_\_\_\_

RHIF GIG: \_\_\_\_\_

(neu ddull adnabod arall)

GWRYWAIDD  BENYWAIDD

## GOFYNION ARBENNIG:

(e.e iaith/dull cyfathrebu arall)

\_\_\_\_\_  
\_\_\_\_\_  
\_\_\_\_\_  
\_\_\_\_\_  
\_\_\_\_\_  
\_\_\_\_\_

## ENW'R CWRS O DRINIAETH ARFAETHEDIG

(ceisiwch gynnwys eglurhad byr os nad ydy'r term meddygol yn glir. Cofiwch gynnwys enw'r protocol a rhestrwch enwau'r cyffuriau'n llawn. Nodwch y pwrpas, y dull gweinyddu, pryd i roi'r driniaeth a safle'r driniaeth)

PROTOCOL: \_\_\_\_\_

PWRPAS Y DRINIAETH (h.y. safle tiwmor) \_\_\_\_\_

## DULL (IAU) GWEINYDDU:

Mewnwythiennol  Isgroenol  Drwy'r geg  Arall: \_\_\_\_\_

PA MOR AML (DIWRNODIAU'R DRINIAETH A HYD Y CYLCH): \_\_\_\_\_

HYD Y DRINIAETH (nifer cylchoedd): \_\_\_\_\_

CYMRYD RHAN MEWN TREIAL CLINIGOL (enw'r treial): \_\_\_\_\_

## YM MHLE FYDD Y DRINIAETH YN CAEL EI RHOI:

adran cleifion allanol  uned/achos dydd  adran cleifion mewnol  Arall: \_\_\_\_\_

\_\_\_\_\_

\_\_\_\_\_

## I GAEL EI GADW YN NODIADAU'R CLEIFION

Paratowyd gan y Fferyllydd: Rena Chauhan  
Gwiriwyd gan yr Ymgynghorydd: Mark Harries  
Cymeradwydd gan: Janine Mansi (UK Chemotherapy Board)

Dyddiad cyhoeddi a fersiwn: Rhagfyr 2016; Fersiwn 1;  
Dyddiad adolygu: Rhagfyr 2019  
Ewch i [www.cruk.org/sact\\_consent](http://www.cruk.org/sact_consent) i gael y fersiwn  
ddiweddraf

# DATGANIAD GWEITHIWR IECHYD PROFFESIYNOL

(i gael ei lenwi gan weithiwr iechyd proffesiynol sydd â gwybodaeth briodol o'r weithdrefn fwriadedig, fel y manylir ym mholisi cydsynio yr ysbyty/ymddiriedolaeth)

Rwyf wedi egluro'r weithdrefn/driniaeth i'r claf.

Yn benodol, rwyf wedi esbonio:

yr holl focsys perthnasol

Adnabyddwr y claf

## Y MANTEISION BWRIADEDIG - DATGANIAD GWEITHIWR IECHYD PROFFESIYNOL

- GWELLHAOL** – i roi'r cyfle gorau posib i chi wella.
- RHEOLI AFIECHYD / DARPARU GOFAL LLINIAROL** – nid gwella ydy'r bwriad, ond yn hytrach, rheoli neu leihau'r afiechyd. Y nod ydy gwella safon bywyd a goroesi.
- CYNORTHWYOL** – therapi sydd yn cael ei roi ar ôl llawdriniaeth, i leihau'r risg o'r canser yn dychwelyd.
- NEO-GYNORTHWYOL** – therapi sydd yn cael ei roi cyn y llawdriniaeth/radiotherapi, i geisio lleihau'r canser, rhoi triniaeth radical, a lleihau'r risg o'r canser yn dychwelyd.

## RISGIAU SYLWEDDOL, NA ELLIR EU HOSGOI, NEU RISGIAU CYFFREDIN (NODWCH YR HOLL RAI SY'N GYMWYS):

- Blinder a theimlo'n wan (gorflinder)
- Mwy o risg o gael haint oherwydd gostyngiad yng nghelloedd gwyn y gwaed - mae'n fwy anodd ymladd heintiau, a gallwch fynd yn sâl iawn.
- Os oes gennych haint difrifol, gallai hyn fygwth eich bywyd. Cysylltwch â'ch meddyg neu'r ysbyty ar unwaith:**
  - os ydy eich tymheredd yn mynd dros 37.5°C (99.5°F) neu 38°C (100.4°F), yn dibynnu ar y cyngor a roddir i chi gan y tîm cemotherapi
  - os ydych chi'n dechrau teimlo'n sâl yn sydyn (hyd yn oed gyda thymheredd normal)
- Anaemia (nifer isel o gelloedd coch yn y gwaed)
- Cleisio neu waedu
- Teimlo'n sâl neu fod yn sâl
- Ceg ddolurus a Wlserau
- Dolur rhydd a rhwymedd
- Newidiadau mewn blasau Colli chwant am fwyd
- Colli gwallt
- Brechau ar y croen Newidiadau yn eich ewinedd
- Gall cemotherapi ollwng o'r wythien tra bydd yn cael ei roi; Gelwir hyn yn elifiad. Os fydd hyn yn digwydd pan rydych yn cael cemotherapi, gall niweidio'r meinweoedd o gwmpas y wythien. Rhwch wybod i'r nyrs ar unwaith os oes gennych unrhyw losgi, poen neu chwydd o gwmpas y wythien. Dydy elifiad ddim yn gyffredin, ond os ydy hyn yn digwydd, mae'n bwysig delio â'r mater ar unwaith.
- Llid ar y dwylo a'r traed
- Diffyg teimlad neu gosi yn eich dwylo a'ch traed
- Nam ar y clyw neu sŵn canu yn y clustiau
- Problemau gyda'r llygaid
- Adweithiau alergaidd Nam ar y clyw
- Nam ar yr ysgyfaint
- Nam ar yr arenau
- Nam ar yr afu
- Cadw hylif Syndrom lysis
- Problemau gyda cwsg Symptomau tebyg i'r fflui
- Lefelau siwgr ansefydlog yn y gwaed
- Risg o gael ail fath o ganser
- Gall canser gynyddu eich risg o ddatblygu clot gwaed (thrombosis). Gall clot gwaed achosi poen, cochni a chwydd yn y goes, diffyg anadl a phoen yn y frest – cysylltwch â'ch meddyg yn syth os oes gennych unrhyw rai o'r symptomau hyn.
- Gall rhai meddyginiaethau gwrth-ganser niweidio ofariau menywod a sberm dynion. Gall hyn arwain at anffrwythlondeb ymhlith dynion a menywod ac/ neu'r menopos cynnar mewn menywod.
- Efallai y bydd rhai meddyginiaethau gwrth-ganser yn niweidio datblygiad baban yn y groth. Mae'n bwysig nad ydych yn feichiog neu'n dod yn dad tra'ch bod chi'n cael triniaeth ac am o leiaf ychydig fisoedd ar ôl hynny. Mae'n bwysig defnyddio dull atal cenhedlu effeithiol yn ystod, ac am sawl mis ar ôl cael triniaeth. Gallwch siarad gyda'ch meddyg neu eich nyrs am hyn.
- Weithiau, ond nid yn aml iawn, gall cymhlethdodau sy'n ymwneud â chael triniaeth gyda meddyginiaethau gwrth-ganser fygwth bywydau, neu arwain at farwolaeth hyd yn oed. Mae'r risgiau'n wahanol i bob unigolyn. Gallwch siarad gyda'ch meddyg neu eich nyrs am beth mae hyn yn ei olygu i chi.

### I GAEL EI GADW YN NODIADAU'R CLEIFION

Paratowyd gan y Fferyllydd: Rena Chauhan  
Gwiriwyd gan yr Ymgynghorydd: Mark Harries  
Cymeradwywyd gan: Janine Mansi (UK Chemotherapy Board)

Dyddiad cyhoeddi a fersiwn: Rhagfyr 2016; Fersiwn 1;  
Dyddiad adolygu: Rhagfyr 2019  
Ewch i [www.cruk.org/sact\\_consent](http://www.cruk.org/sact_consent) i gael y fersiwn ddiweddaraf

# DATGANIAD GWEITHIWR IECHYD PROFFESIYNOL (parhau)

Adnabyddwr y claf

RISGIAU ERAILL A GWYBODAETH: \_\_\_\_\_

\_\_\_\_\_

\_\_\_\_\_

\_\_\_\_\_

- Rwyf wedi trafod yr hyn y mae'r driniaeth yn debygol o'i gynnwys (gan gynnwys triniaeth i gleifion mewnol/cleifion allanol, amseriad y driniaeth, profion gwaed ac unrhyw brofion ychwanegol, apwyntiadau dilynol ac ati), a lleoliad y driniaeth.
- Rwyf wedi trafod manteision bwriadedig a risgiau unrhyw driniaethau eraill sydd ar gael (yn cynnwys dim triniaeth), ac unrhyw bryderon penodol sydd gan y claf.

## MAE'R DAFLEN GANLYNOL/TAFLENNI CANLYNOL WEDI CAEL EU RHOI I'R CLAF:

- Tafleenni gwybodaeth ar gyfer: \_\_\_\_\_
- Manylion cyswllt ar gyfer gwasanaeth cemotherapi 24 awr
- Gwybodaeth ynghylch defnyddio meddyginiaeth heb ei drwyddedu (lle'n briodol)
- Arall, nodwch: \_\_\_\_\_

Llofnodwyd: \_\_\_\_\_ Dyddiad: \_\_\_\_\_

Enw (LLYTHRENNAU BRAS): \_\_\_\_\_

Teitl swydd: \_\_\_\_\_

## DATGANIAD Y CYFIEITHYDD AR Y PRYD (LLE BO'N BRIODOL)

### CYFEIRNOD BWCIO'R CYFIEITHYDD AR Y PRYD (OS YN GYMWYS):

Rwyf wedi cyfieithu'r wybodaeth uchod i'r claf hyd orau fy ngallu, ac mewn ffordd y credaf y bydd ef/hi yn gallu ei ddeall.

Llofnodwyd: \_\_\_\_\_ Dyddiad: \_\_\_\_\_

Enw (LLYTHRENNAU BRAS): \_\_\_\_\_

Teitl swydd: \_\_\_\_\_

## DATGANIAD Y CLAF

Darllenwch y ffurflen hon yn ofalus. Os ydy eich triniaeth wedi'i chynllunio ymlaen llaw, dylech fod wedi cael eich copi eich hun o'r ffurflen sy'n disgrifio manteision a risgiau'r driniaeth arfaethedig, ond os nad ydy eich triniaeth wedi'i chynllunio ymlaen llaw, byddwch yn cael cynnig copi nawr. Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau pellach, gofynnwch - rydyn ni yma i'ch helpu chi. Mae gennych yr hawl i newid eich meddwl ar unrhyw adeg, gan gynnwys ar ôl i chi lofnodi'r ffurflen hon.

Rwyf yn cytuno gyda'r weithdrefn a'r cwrs o driniaeth a ddisgrifir ar y ffurflen hon.

Rwyf yn deall na allwch fy sicrhau y bydd unigolyn penodol yn perfformio'r weithdrefn. Fodd bynnag, bydd gan yr unigolyn hyfforddiant a phrofiad priodol.

Rwyf yn deall na fydd unrhyw weithdrefn yn ychwanegol at y rhai a ddisgrifir ar y ffurflen hon yn cael ei chyflawni, oni bai bod y driniaeth hon yn angenrheidiol i achub fy mywyd neu i atal niwed difrifol i fy iechyd.

Rwyf wedi cael gwybod am weithdrefnau ychwanegol a allai ddod yn angenrheidiol yn ystod fy nhriniaeth. Rwyf wedi rhestru isod unrhyw weithdrefnau nad wyf eisiau iddynt gael eu gwneud heb drafodaeth bellach:

**Dylai tyst arwyddo isod os ydyw'r claf yn methu llofnodi, ond wedi arwyddo eu bod yn cytuno. Os yn briodol, medr rhieni arwyddo yma os ydy'r claf yn blentyn/person ifanc (gweler y nodiadau).**

Llofnod y claf: \_\_\_\_\_ Dyddiad: \_\_\_\_\_

Enw (LLYTHRENNAU BRAS): \_\_\_\_\_

Llofnod Rhiant/Tyst: \_\_\_\_\_ Dyddiad: \_\_\_\_\_

Enw (LLYTHRENNAU BRAS): \_\_\_\_\_

## COPI WEDI'I DDERBYN GAN Y CLAF: DO / NADDO

(rhowch gylch)

### CADARNHAD O GYDSYNIAD Y CLAF

(gweithiwr iechyd proffesiynol i'w gwblhau pan fydd y claf yn dod am driniaeth, os ydy'r claf wedi llofnodi'r ffurflen ymlaen llaw)

Ar ran y tîm sy'n trin y claf, rwyf wedi cadarnhau gyda'r claf nad oes ganddo ef/ganddi hi ragor o gwestiynau, a'i fod ef / ei bod hi yn dymuno bwrw ymlaen â'r driniaeth.

Llofnodwyd: \_\_\_\_\_

Dyddiad: \_\_\_\_\_

Enw (LLYTHRENNAU BRAS): \_\_\_\_\_

Teitl swydd: \_\_\_\_\_

#### NODIADAU PWYSIG: (ticiwch os yn gymwys)

- Gweler hefyd y penderfyniad o flaen llaw i wrthod triniaeth
- Mae'r claf wedi tynnu ei gydsyniad yn ôl (gofynnwch i'r claf lofnodi/dyddio yma)

Llofnodwyd: \_\_\_\_\_

Dyddiad: \_\_\_\_\_

### RHAGOR O WYBODAETH I GLEIFION

**MANYLION CYSWLLT** (os ydy'r claf yn dymuno trafod yr opsiynau yn ddiweddarach):

**Cysylltwch â'ch tîm ysbyty os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am ganser a'i driniaeth.**

Gall Cancer Research UK helpu hefyd i ateb eich cwestiynau am ganser a'i driniaeth. Os ydych chi eisiau siarad yn gyfrinachol, ffoniwch ein nyrsys gwybodaeth ar ein rhif rhadffôn 0808 800 4040. Mae'r nyrsys ar gael rhwng 9am a 5pm o ddydd Llun i ddydd Gwener. Fel arall, ewch i [www.cruk.org](http://www.cruk.org) am ragor o wybodaeth.

Mae'r ffurflenni hyn wedi cael eu cynhyrchu gan Guy's and St. Thomas' NHS Foundation Trust fel rhan o brosiect cenedlaethol i gefnogi clinigwyr i wneud yn siŵr bod yr holl gleifion yn hollol wybodus pan maen nhw'n cytuno i gael Therapi Gwrth-ganser Systemig. Mae'r prosiect yn cael ei gefnogi gan Cancer Research UK. Nid yw hyn yn golygu eich bod chi'n cymryd rhan mewn treial clinigol.



#### I GAEL EI GADW YN NODIADAU'R CLEIFION

Paratowyd gan y Fferyllydd: Rena Chauhan  
Gwiriwyd gan yr Ymgynghorydd: Mark Harries  
Cymeradwywyd gan: Janine Mansi (UK Chemotherapy Board)

Dyddiad cyhoeddi a fersiwn: Rhagfyr 2016; Fersiwn 1;  
Dyddiad adolygu: Rhagfyr 2019  
**Ewch i [www.cruk.org/sact\\_consent](http://www.cruk.org/sact_consent) i gael y fersiwn ddiweddaraf**

# CANLLAW I WEITHWYR IECHYD PROFFESIYNOL

(i gael ei ddarllen ar y cyd â pholisi cydsynio yr ysbyty)

## BETH YDY FFURFLEN GYDSYNIO

Mae'r ffurflen hon yn nodi cytundeb y claf i fwrw yml-aen gyda'r ymchwiliad neu'r driniaeth rydych chi wedi'i hargymell i'r claf. Nid yw'n eithriad cyfreithiol - os nad yw cleifion, er enghraifft, yn cael digon o wybodaeth ar gyfer seilio eu penderfyniad, yna efallai na fydd y cydsynio yn ddilys, er bod y ffurflen wedi'i llofnodi. Mae gan gleifion yr hawl hefyd, i newid eu meddwl ar ôl llofnodi'r ffurflen, os oes ganddynt y gallu i wneud hynny. Dylai'r ffurflen weithredu fel cymorth cof i weithwyr iechyd proffesiynol a chleifion, drwy ddarparu rhestr wirio o'r math o wybodaeth a ddylai gael ei chynnig i gleifion, a thrwy alluogi'r claf i gael cofnod ysgrifenedig o'r prif bwyntiau a drafodwyd. Yn sicr, ni ddylai'r wybodaeth ysgrifenedig a roddir i'r claf gael ei defnyddio mewn unrhyw ffordd yn lle trafodaethau wyneb yn wyneb gyda'r claf.

## Y GYFRAITH AR GYDSYNIO

Gweler canllaw Cyfeirio yr Adran Iechyd (2il Argraffiad) mewn perthynas â chydsynio i archwiliad neu driniaeth, i gael crynodeb cynhwysfawr ar y gyfraith ar gydsynio (hefyd ar gael yn [www.doh.gov.uk](http://www.doh.gov.uk)).

## PWY SY'N CAEL CYDSYNIO

Tybir bod gan bawb sy'n 16 oed neu'n hŷn y gallu i gydsynio drostyn nhw eu hunain, oni bai bod y gwrthwyneb yn cael ei ddangos. Os oes gan blentyn dan 16 oed "ddealltwriaeth a deallusrwydd digonol i'w alluogi i ddeall yn llawn yr hyn a gynigir", yna bydd ganddo ef / ganddi hi y gallu i gydsynio drostyn nhw eu hunain. Felly, gall pobl ifanc 16 ac 17 oed, a phlant iau sydd â'r gallu, lofnodi'r ffurflen hon eu hunain, ond efallai y byddant yn hoffi i riant gydlofnodi'r ffurflen hefyd. Os na all y plentyn gydsynio drosto ef/drosti hi ei hun, gall rhywun sydd â chyfrifoldeb fel riant wneud hynny ar eu rhan, ac mae ffurflen ar wahân ar gael at y diben hwn. Hyd yn oed os yw plentyn yn gallu cydsynio drosto ef/drosti hi ei hun, dylech bob amser gynnwys yr unigolion hynny sydd â chyfrifoldeb fel riant am ofal y plentyn, oni bai fod y plentyn yn gofyn yn benodol ichi beidio â gwneud hynny. Os oes gan gleifion y gallu i gydsynio ond eu bod nhw ddim yn gallu llofnodi'r ffurflen yn gorfforol, dylech lenwi'r ffurflen hon fel arfer, a gofyn i dyst annibynnol gadarnhau bod y claf wedi rhoi caniatâd ar lafar neu fel arall.

## PRYD I BEIDIO Â DEFNYDDIO'R FFURFLEN HON

Os yw'r claf yn 18 oed neu'n hŷn ac nad oes ganddo'r gallu i gydsynio, dylech ddefnyddio ffurflen arall (ffurflen ar gyfer oedolion sydd heb y gallu i gydsynio i archwiliad neu driniaeth) yn lle'r ffurflen hon. Does gan gleifion ddim y gallu i gydsynio os oes ganddynt nam ar y meddwl neu'r ymennydd, neu os oes ganddynt gyflwr sy'n effeithio ar y ffordd mae eu meddwl neu eu hymennydd yn gweithio,

## Adnabyddwr y claf

a'u bod nhw ddim yn gallu:

- deall gwybodaeth am y penderfyniad sydd i gael ei wneud
- cofio'r wybodaeth honno
- defnyddio neu bwysu a mesur yr wybodaeth hon fel rhan o'u proses gwneud penderfyniadau, neu
- cyfathrebu eu penderfyniad (drwy siarad, defnyddio iaith arwyddion neu drwy unrhyw ffyrdd eraill).

Dylech gymryd pob cam rhesymol bob amser (er enghraifft, cynnwys cydweithwyr mwy arbenigol), i gefnogi claf i wneud eu penderfyniad eu hunain, cyn dod i'r casgliad na allant wneud hynny.

Ni ellir gofyn i berthnasau lofnodi ffurflen ar ran oedolyn sydd heb y gallu i gydsynio drostyn nhw eu hunain, oni bai eu bod nhw wedi cael eu hawdurdodi i wneud hynny o dan Atwrneiaeth Arhosol neu fel dirprwy llys.

## GWYBODAETH

Mae gwybodaeth am yr hyn y bydd y driniaeth yn ei gynnwys, am fanteision a risgiau'r driniaeth (gan gynnwys sgil-ffeithiau a chymhlethdodau) ac am ddewisiadau amgen i'r driniaeth benodol a gynigir, yn hanfodol i gleifion wrth wneud eu penderfyniadau. Mae'r llysoedd wedi datgan y dylid dweud wrth gleifion am 'risgiau sylweddol a fyddai'n effeithio ar farn claf rhesymol'. Dydy 'sylweddol' heb gael ei ddiffinio'n gyfreithiol, ond mae'r Cyngor Meddygol Cyffredinol (CMC) yn mynnu bod meddygon yn dweud wrth gleifion am 'risgiau sylweddol, anochel neu am risgiau cyffredin. Yn ogystal, os ydy cleifion yn ei gwneud yn glir bod ganddynt bryderon penodol ynghylch rhywfaint o'r risgiau, dylech sicrhau eu bod yn cael gwybod am y risgiau hyn, hyd yn oed os ydynt yn fach iawn neu ddim yn gyffredin iawn. Dylech ateb cwestiynau yn onest bob amser. Weithiau, gall cleifion ei gwneud yn glir nad ydynt eisiau cael unrhyw wybodaeth am yr opsiynau, ond eu bod nhw eisiau i chi benderfynu ar eu rhan. Mewn amgylchiadau o'r fath, dylech wneud eich gorau glas i wneud yn siŵr bod y claf yn derbyn yr wybodaeth sylfaenol o leiaf am yr hyn a gynigir. Os ydy'r wybodaeth yn cael ei gwrthod, dylech gofnodi hyn ar y ffurflen gydsynio neu yn nodiadau'r claf.

## CYFEIRNODAU

1. Summary of Product Characteristics (SPCs) for individual drugs: <https://www.medicines.org.uk/emc/>
2. Cancer Research UK: <http://www.cancerresearchuk.org/about-cancer/cancers-in-general/treatment/cancer-drugs/>
3. Macmillan Cancer Support, Cancer Information: <http://www.macmillan.org.uk/Cancerinformation/Cancertreatment/Treatmenttypes/Chemotherapy/Chemotherapy.aspx>
4. Guy's and St. Thomas' NHS Foundation Trust, Chemotherapy consent forms.

## I GAEL EI GADW YN NODIADAU'R CLEIFION

Paratowyd gan y Fferyllydd: Rena Chauhan  
Gwiriwyd gan yr Ymgynghorydd: Mark Harries  
Cymeradwydd gan: Janine Mansi (UK Chemotherapy Board)

Dyddiad cyhoeddi a fersiwn: Rhagfyr 2016; Fersiwn 1;  
Dyddiad adolygu: Rhagfyr 2019  
Ewch i [www.cruk.org/sact\\_consent](http://www.cruk.org/sact_consent) i gael y fersiwn ddiweddaraf